**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

David T.C. Davies AS

Y Pwyllgor Materion Cymreig

Tŷ’r Cyffredin

17 Hydref 2018

Annwyl David,

**YR YMCHWILIAD I DDATGANOLI TOLL TEITHWYR AWYR I GYMRU**

Ysgrifennaf ar ran Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â'ch ymchwiliad cyfredol i Ddatganoli Toll Teithwyr Awyr (TTA). Trafodwyd yr ymchwiliad yn ein cyfarfod ar 17 Hydref, ac rydym ni, fel grŵp trawsbleidiol o Aelodau'r Cynulliad, yn awyddus i sicrhau y cyflwynir ein barn i'ch ymchwiliad. Datganoli TTA yw'r argymhelliad olaf gan gomisiwn Silk sydd i'w gyflawni gan Lywodraeth y DU ac rydym ni, fel Pwyllgor, yn cefnogi ei datganoli yn gryf.

Nid ydym wedi gwneud gwaith penodol ynghylch datganoli TTA, ond rydym wedi trafod y ffaith bod tystiolaeth gref sy'n cyfiawnhau datganoli TTA i Gymru.

Yn ogystal, datganolwyd TTA i'r Alban yn llwyr, ac i Ogledd Iwerddon mewn perthynas â hediadau pellter hir. Datganoli TTA yw'r cam nesaf o ran datganoli cyllidol i Gymru ac mae'n ddatblygiad pwysig i a fyddai’n dileu trefn sy'n "parhau i gyfyngu, mewn ffordd na ellir ei chyfiawnhau, ar allu Cymru i'w hyrwyddo'i hun dramor a’i fod hefyd yn llesteirio twf yn y sector hedfan a'r economi ehangach". [1]

[1] https://gov.wales/newsroom/firstminister/2017/171119-further-calls-for-devolution-of-air-passenger-duty-to-wales/?lang=cy

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Byddai ddiddordeb gennym yng nghasgliadau'r Pwyllgor Materion Cymreig ac edrychwn ymlaen at eich adroddiad terfynol.

Yn gywir,

Llyr Gruffydd AC

Cadeirydd Dros Dro'r Pwyllgor Cyllid